# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 – Adran F

**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 15 Mawrth i'w hateb ar 29 Mawrth 2001**

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddiwylliant a Chwaraeon

**1.William Graham (Dwyrain De Cymru);** Wneud datganiad ynghylch sefydlu canolfan gelfyddydau gymunedol yn Eglwys Crist, Caernarfon. (OAQ10689)

**2.Gwenda Thomas (Castell-nedd);** Sut wnaiff hi amddiffyn hawliau aelwydydd Cymru, a allai fod o dan anfantais oherwydd incwm a/neu'r ffaith nad yw signalau teledu digidol ar gael yn rhwydd, i barhau i dderbyn rhaglenni teledu. (OAQ10604)

**3.Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);** Pa drefniadau ariannu sydd wedi'u sefydlu ar gyfer hyfforddi athletwyr ifanc ledled Cymru. (OAQ10615)

**4.Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A all wneud datganiad ar yr arian cyfatebol sydd ar gael ar gyfer mentrau chwaraeon yng Nghymru. (OAQ10618)

**5.David Melding (Canol De Cymru);** A yw wedi cwrdd ag Arglwydd Faer Caerdydd yn ddiweddar i drafod cais gan Gaerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008. (OAQ10668)

**6.Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y gwersi a ddysgwyd yn sgil cynnal Rownd Derfynol Cwpan Worthington yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd. (OAQ10661)

**7.Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff drefnu i roi gwybodaeth i'r Aelodau am y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r cais am arian ar gyfer yr Amgueddfa Genedlaethol Diwydiant a Môr yn Abertawe. (OAQ10624) R

**8.David Davies (Mynwy);** Beth sy'n cael ei wneud i hybu'r iaith Gymraeg yn ardaloedd y ffin

yng Nghymru. (OAQ10622)

**9.John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa gamau a gymerir i sicrhau bod pobl Cymru’n elwa cymaint ag y bo modd o’n llyfrgelloedd, orielau celf ac amgueddfeydd. (OAQ10686)

**10.Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin);** Wneud datganiad ar sut mae’r gwaith o ailstrwythuro Cyngor Celfyddydau Cymru’n symud yn ei flaen. (OAQ10681)

**11.Dr Brian Gibbons (Aberafan);** Pa gamau y mae’n eu cymryd i sicrhau y darperir ar gyfer anghenion cefnogwyr sy’n dod i weld gemau pêl-droed mawr yng Nghaerdydd. (OAQ10619)

**12.Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);** A all wneud datganiad ar y cymorth y mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn ei roi i’r celfyddydau yng Ngorllewin Cymru. (OAQ10614) **TYNWYD YN OL**

**13.Gwenda Thomas (Castell-nedd);** Gan groesawu adroddiad Cyngor Chwaraeon Cymru ar gymryd rhan mewn chwaraeon, a’r cynnydd o 16% a gafwyd, a wnaiff hi ymuno â mi i gymeradwyo Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Dyma’r awdurdod sy’n perfformio orau o ran chwaraeon yn y Cymoedd, er gwaethaf ei Grant Cynnal Refeniw isel ar gyfer y cyfnod o dan sylw a chyn hynny. (OAQ10603)

**14.Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff hi amlinellu ei pholisi ar ddenu digwyddiadau chwaraeon mawr i Gymru. (OAQ10639)

**15.Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff hi ddatganiad ar y camau a gymerwyd er mwyn cyflawni’r amcanion a enwyd yn y Cytundeb Partneriaeth sy’n gysylltiedig â diwylliant a chwaraeon. (OAQ10676)

**16.Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa asesiad y mae hi wedi ei gynnal o’r buddiannau posibl yn y tymor hir i dwristiaeth yng Nghymru, yn dilyn cynnal Rownd Derfynol Cwpan yr FA a digwyddiadau chwaraeon eraill dros y blynyddoedd sydd i ddod. (OAQ10678)

**17.Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau diweddaraf ynghylch Canolfan Mileniwm Cymru. (OAQ10660)

**18.Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Pa drafodaethau y mae hi wedi eu cynnal gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru ynghylch y cyfleusterau y mae’n angenrheidiol i glybiau Cynghrair Cymru eu cael. (OAQ10685)

**19.Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff hi ddatganiad ar ddatblygiad pêl-droed yng Nghymru. (OAQ10638)

**20.Tom Middlehurst (Alun a Glannau Dyfrdwy);** A wnaiff hi adrodd ar ganlyniad yr adolygiad a gynhaliwyd ar y cyd rhwng yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a swyddogion y gweinyddiaethau datganoledig ar gyfran yr arian loteri a ddyrennir i Chwaraeon a'r Celfyddydau yng Nghymru. (OAQ10616)

**21.Gareth Jones (Conwy);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynnydd tuag at Gronfa Ddata Gelfyddydol i Gymru. (OAQ10682) [W]

**22.Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** Faint o astudiaethau dichonoldeb y mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi'u hariannu ers sefydlu'r Cynulliad. (OAQ10617) **TYNWYD YN OL**

**23.Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Sut y bydd hi'n monitro'r manteision a ddaw i Gymru o lwyfannu digwyddiadau mawr ym myd chwaraeon yn Stadiwm y Mileniwm dros y blynyddoedd nesaf. (OAQ10675)

**24.Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A wnaiff y gweinidog ddatganiad ar fater nawdd ym myd diwylliant a chwaraeon. (OAQ010629)W

**25.Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** A wnaiff amlinellu'r weithdrefn ar gyfer dyrannu yng Nghymru o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar. (OAQ10630)

**26.Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa asesiad y mae wedi'i wneud o nifer y merched sy'n mynd i glybiau bowls yng Nghymru. (OAQ10673)

**27.Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** A wnaiff ddatganiad ar ei chynlluniau am gronfa ffilm i Gymru. (OAQ10627)

**28.Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gydag Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd ar faterion diwylliannol sy'n effeithio ar Gaerdydd. (OAQ10641)

**29.John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff ddatganiad ar bwysigrwydd denu digwyddiadau mawr ym myd chwaraeon i Gymru. (OAQ10687)

**30.Val Feld (Dwyrain Abertawe);** A wnaiff y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon ddatganiad ar y trafodaethau a gafodd ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio Cronfeydd

Strwythurol Ewropeaidd i ddibenion darparu chwaraeon yng Nghymru. (OAQ10626) **TYNWYD YN OL**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig

**1. Owen John Thomas (Canol De Cymru)**; Pa gynlluniau sydd gennych i annog pawb yn y diwydiant bwyd i geisio lleihau'r pellteroedd rhwng mannau cynhyrchu, prosesu a gwerthu cynnyrch ffermydd Cymru. (OAQ10634) [W]

**2. Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar les anifeiliaid sw yng Nghymru yn sgil clwy'r Traed a'r Genau. (OAQ10693)

**3. Brian Gibbons (Aberafan);** Pa gyfran o'r cig sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru sy'n cael ei brosesu yng Nghymru. (OAQ10611)

**4. Val Feld (Dwyrain Abertawe);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trefniadau ariannu cyfredol ar gyfer Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr Cymru. (OAQ10633)

**5. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** Beth yw goblygiadau'r rhaglen Leader Plus o safbwynt Sir Benfro. (OAQ10608)

**6. David Davies (Mynwy);** Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran sicrhau arian i adfer ardaloedd amaethyddol sydd wedi dioddef oherwydd llifogydd. (OAQ10631)

**7. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar ddyfodol y diwydiant cig eidion yng Nghymru. (OAQ10662)

**8. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar ddyfodol y diwydiant defaid yng Nghymru. (OAQ10663)

**9. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar daliadau hwyr cymorthdaliadau Tir Mynydd. (OAQ10642)

**10. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A all wneud datganiad ar y sefyllfa ddiweddaraf parthed clwy'r Traed a'r Genau yng Nghymru. (OAQ10605) **TYNWYD YN OL**

**11. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff ddatganiad ar y sefyllfa ddiweddaraf parthed troi i ffermio organig yng Nghymru. (OAQ10691)

**12. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro);** A all wneud datganiad ar Leader Plus a'r ffordd y mae'n effeithio ar Sir Benfro. (OAQ10607) **TYNWYD YN OL**

**13. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Samariaid ynglyn â'r cymorth y gallant ei gynnig i'n ffermwyr yn ystod yr argyfwng presennol. (OAQ10690)

**14. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa opsiynau eraill heblaw am losgi anifeiliaid yn ulw y mae'r Gweinidog wedi'u hystyried ar gyfer rheoli clwy'r Traed a'r Genau. (OAQ10643)

**15. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu ei gynigion ar gyfer polisïau gwledig yng Nghymru yn ystod 2002. (OAQ10694).

**16. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** O ganlyniad i ymddangosiad clwy'r Traed a'r Genau, pa faterion budd-daliadau sy'n cael eu trafod. (OAQ10637)

**17. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa asesiad y mae wedi'i wneud o gyfanswm yr anifeiliaid sy'n debygol o gael eu difa o ganlyniad i'w ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Mawrth. (OAQ10667)

**18. Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** Pa gamau y mae'n eu cymryd er mwyn annog Ffermwyr yng Nghymru i arallgyfeirio. (OAQ10692)

**19. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa brotocol y mae'n ei weithredu ar gyfer rhoi gwybod i Aelodau'r Cynulliad am ei ymweliadau fel Gweinidog â'u hetholaethau a'u rhanbarthau. (OAQ10636)

**20. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff ddatganiad ynghylch effaith clwy'r Traed a'r Genau ar Ddyffryn Clwyd. (OAQ10664)

**21. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i hyrwyddo arallgyfeirio ymhlith ffermwyr. (OAQ10635) [W]

**22. Alison Halford (Delyn);** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i leihau'r cyfyngiadau i'r ardaloedd hynny yng Ngogledd Ddwyrain Cymru nad effeithwyd arnynt gan glwy'r Traed a'r Genau. (OAQ10609)

**23. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi ystyried cynlluniau i gyflogi milfeddygon sydd newydd ymddeol i helpu gyda'r argyfwng traed a'r genau. (OAQ10666)

**24. David Davies (Mynwy);** Pa ddatblygiadau a wnaed tuag at sefydlu pwyllgor apeliadau amaeth. (OAQ10632)

**25. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Pa gynlluniau sydd ganddo i ddigolledu'r bobl hynny yn Nyffryn Clwyd yr effeithwyd ar eu busnesau gan glwy'r Traed a'r Genau. (OAQ10665)

**26. Brian Gibbons (Aberafan);** Pa gyfran o gynnyrch llaeth Cymru a brosesir yng Nghymru. (OAQ10612)

**27. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro);** A all roi adroddiad ar hynt clwy'r Traed a'r Genau yng Nghymru. (OAQ10606) **TYNWYD YN OL**

**28. Alison Halford (Delyn);** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i rwystro prynwyr rhag defnyddio sefyllfa clwy'r Traed a'r Genau i dalu llai i ffermwyr am eu cynnyrch. (OAQ10610)